O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U

2 0 2 3   N O .   ( W . )

# HARBYRAU, DOCIAU, PIERAU A FFERÏAU.

## Harbwr Port Talbot (Estyn Terfynau) Gorchymyn Adolygu Harbwr 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* - - - - | *** |
| *Dod i rym* | *** |

CYNNWYS


1. Teitl a dod i rym
2. Dehongli
3. Awdurdodaeth estyn terfynau
4. Cymhwyso deddfwriaeth gyfredol

ATODLEN 1 — Ardal Ychwanegol
ATODLEN 2 — Plan o'r Ardal Ychwanegol

Yn unol ag adran 14**(1)** o Ddeddf Harbyrau 1964(1) ("y Ddeddf"), mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal a'i gadw neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth arfer a chyflawni pwerau a dyletswyddau statudol, i gyflawni amcanion a bennir yn Atodlen 2 o'r Ddeddf(**b**).

Mae Porthladdoedd Cysylltiol Prydain (Associated British Ports), sef yr awdurdod harbwr ar gyfer Harbwr Port Talbot, wedi gwneud cais yn unol ag adran 14(2)(a) o'r Ddeddf am orchymyn adolygu harbwr o dan adran 14 o'r Ddeddf

Mae swyddogaethau'r Gweinidog priodol at ddiben yr adran honno wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru**(a)**.

[Mae hysbysiad wedi ei gyhoeddi yn unol â gofynion paragraff 10 o Atodlen 3 i'r Ddeddf ac mae darpariaethau paragraffau 15 a 17 o Atodlen 3 i'r Ddeddf wedi eu bodloni. Ni chafwyd gwrthwynebiadau i'r cais.]

[Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 14(1) a (3) o'r Ddeddf, a chan eu bod yn fodlon bod gofynion adran 14(2)(b) a 14(2B) o'r Ddeddf honno wedi eu bodloni, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.]

**Teitl a dod i rym**

**1.**—(1) Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adolygu Harbwr (Estyn Terfynau) Harbwr Port Talbot 2023.

(2) Daw'r Gorchymyn i rym ar [ ].

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

Ystyr "Deddf 1847" *("the 1874 Ac*t") yw Deddf Cymalau Pierau a Dociau Harbyrau 1847(**d**)

Ystyr "Deddf 1899" *("the 1899 Act"*) yw Deddf Dociau a Rheilffordd Port Talbot 1899(**a**);

Ystyr "Deddf 1964 ("*the 1964 Act*") yw Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1964(**b);**

Ystyr "Deddf 1971" *("the 1971 Act"*) yw Deddf Dociau Trafnidiaeth Prydain 1971(**c);**

Ystyr "yr ardal ychwanegol" *("the added area")* yw yr ardal a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac wedi'i ddangos at bwrpas adnabod yn unig ar y plan wedi'i osod allan yn Atodlen 2;

Ystyr "yr is-ddeddfau harbwr cyfredol" *("the existing harbour byelaws")* yw is-ddeddfau Harbwr Port Talbot dyddiedig 1$^{af}$ Mawrth 1923 fel yr atchwanegwyd gan yr is-ddeddfau dyddiedig 29$^{ain}$ Ebrill 1927;

Ystyr "yr awdurdod harbwr" *("the harbour authority")* yw Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain yn ei gapasiti o awdurdod harbwr ar gyfer Harbwr Port Talbot;

Ystyr "Harbwr Port Talbot" ("Port Talbot Harbour") yw'r dociau a'r harbwr o dan oruchwyliaeth Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain yn Port Talbot.

(**a**) 1899.c.cxcix
(**b**) 1964.c.xxxviii.
(**c**) 1871.c.1ix

**Awdurdodaeth Estyn Terfynau**

**3.**—(1) Mae terfynau Harbwr Port Talbot yn unol ag adran 23 (Terfynau cyfredol yr harbwr) o Ddeddf 1899 ac wedi'i hymestyn gan adran 19 (Estyniad o awdurdodaeth y doc a'r harbwr feistr ac o derfynau'r harbwr) o Ddeddf 1971 wedi'u hymestyn ymhellach i gynnwys yr ardal ychwanegol.

(2) Yn amodol ar erthygl 4 bydd pob deddfiad yn cyflwyno hawliau a phwerau neu'n gosod dyletswyddau, goblygiadau neu rwymedigaethau ar awdurdod yr harbwr neu ei harbwr feistr oedd ag effaith union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym oddi fewn i'r harbwr yn cael effaith oddi fewn i'r ardal ychwanegol. Cymhwyso deddfwriaeth gyfredol

**4.**—(1) Mae gan Ddeddf 1847 effaith oddi fewn i'r ardal ychwanegol fel sydd wedi'i gorffori gan Ddeddf 1964.

(2) Nid yw is-ddeddfau presennol yr harbwr yn berthnasol i'r ardal ychwanegol.

(3) O ran codi taliadau llong, nwyddau a theithwyr oddi fewn i ystyr Deddf Harbyrau 1964 does dim rhaid eu codi ar unrhyw long na nwyddau a gludir ar y llong honno am y rheswm bod y llong yn pasio trwy neu yn angori oddi fewn i'r ardal ychwanegol ar daith i ac o le y tu allan i Harbwr Port Talbot.

(4) Does dim rhaid codi taliadau peilotiaeth o dan adran 10 (taliadau peilotiaeth) o'r Ddeddf Peilotiaeth 1987(2) ar unrhyw lestr sy'n pasio trwy neu yn angora yn yr ardal ychwanegol sydd yn teithio i neu o ardal awdurdod harbwr cymwys arall ac sydd yn atebol i gyfarwyddyd peilotiaeth gorfodol a wnaed gan yr awdurdod hwnnw.

(5) Yn yr erthygl hon mae "awdurdod harbwr cymwys" yn golygu awdurdod harbwr cymwys at ddiben y ddeddf Peilotiaeth 1987 ac mae "cyfarwyddyd peilotiaeth gorfodol" yn golygu cyfarwyddyd a wnaed o dan adran 7 (cyfarwyddiadau peilotiaeth) o'r Ddeddf honno.

Llofnodi'r testun

*Enw*

Cyfeiriad
Dyddiad

# ATODLEN 1

Erthygl 2

## Ardal Ychwanegol

Mae'r ardal ychwanegol yn golygu yr ardal oddi fewn i Fae Abertawe, wedi'i dangos at bwrpas adnabod yn unig ar y plan wedi'i osod allan yn Atodlen 2, ffinedig gan linell ddychmygol wedi'i thynnu rhwng y pwyntiau canlynol -

| Pwynt | Lledred | Hydred |
|---|---|---|
| 1 | 51° 35' 03.15893"Gog | 003° 49' 58.92743"Gor |
| 2 | 51° 35' 23.28499"Gog | 003° 53' 52.82491"Gor |
| 3 | 51° 34' 48.72388"Gog | 003° 54' 16.40161"Gor |
| 4 | 51° 34' 09.25610"Gog | 003° 56' 54.67783"Gor |
| 5 | 51° 32' 40.80632"Gog | 003° 58' 52.80959"Gor |
| 6 | 51° 32' 37.04455"Gog | 004° 05' 25.93474"Gor |
| 7 | 51° 24' 59.63288"Gog | 004° 09' 42.42239"Gor |
| 8 | 51° 24' 59.70080"Gog | 003° 58' 01.78030"Gor |
| 9 | 51° 28' 33.70239"Gog | 003° 55' 40.05564"Gor |
| 10 | 51° 30' 05.51332"Gog | 003° 49' 34.14032"Gor |
| 11 | 51° 32' 13.91218"Gog | 003° 51' 35.79793"Gor |
| 12 | 51° 32' 50.42414"Gog | 003° 50' 01.11214"Gor |
| 13 | 51° 33' 35.46087"Gog | 003° 50' 45.40336"Gor |
| 14 | 51° 33' 28.55389"Gog | 003° 51' 04.80125"Gor |
| 15 | 51° 34' 01.50460"Gog | 003° 51' 33.55558"Gor |
| 16 | 51 34' 38.48640"4Gog | 003° 49' 55.61939"Gor |

# ATODLEN 2

## Plan o'r Ardal Ychwanegol

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud ar gais Porthladdoedd Cysylltiol Prydain (Associated British Ports) sef yr awdurdod harbwr ar gyfer Harbwr Port Talbot gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964.

Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi estyniad atfor pellach o derfynau Harbwr Port Talbot ac yn darparu ar gyfer cymhwyso ei ddeddfwriaeth i'r terfynau ychwanegol.